CYNGOR BRO

LLANFAIRPWLLGWYNGYLL

POLISI DIOGELU PLANT AC OEDOLION

Fersiwn 1af: 4ydd Fawrth 2020

1. CYFLWYNIAD

1.1. Fel Cyngor, rydym yn credu bod hawl gan bob plentyn ac oedolyn i fod yn ddiogel rhag niwed. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei rôl a'i gyfrifoldebau i ddarparu canllawiau penodol i staff, Cynghorwyr, partneriaid a'r bobl hynny rydym yn eu gwasanaethu yn y maes allweddol hwn.

1.2. Mae "Diogelu" yn fater i bawb o fewn y Cyngor. Er mai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yw'r gwasanaeth sy'n arwain ar ddelio ag ymholiadau am honiadau/pryderon bod plant ac oedolion yn profi niwed arwyddocaol, mae gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion, beth bynnag yw rôl yr unigolyn.

1.3. Mae "Diogelu" yn gysyniad sy'n cwmpasu mwy nag amddiffyn plant ac oedolion ac mae'n ymwneud â hyrwyddo:

- Iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol
- Amddiffyn rhag niwed ac esgeuluso
- Addysg, hyfforddiant a hamdden
- Cyfraniad i gymdeithas
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd

2. PWRPAS Y DDOGFEN HON

Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno "Polisi ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion" y Cyngor Bro.

2.1 Amcanion ac Egwyddorion y Polisi

2.1.1 **Amcanion**

- dangos sut mae Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll yn cyflawni ei ymrwymiadau ym maes diogelu plant ac oedolion
- rhoi sicrwydd i aelodau o'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, Cynghorwyr, a phobl sy'n gweithio ar ran y Cyngor fod trefniadau wedi'u gwneud i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion
- bod canllawiau i staff y Cyngor a'r Cynghorwyr ar gyfer achosion lle gall plentyn neu oedolyn fod yn agored i'r perygl o niwed.

2.1.2 **Egwyddorion**

Fel Cyngor rydym yn credu ei bod bob amser yn annerbyniol i blentyn neu oedolyn gael ei gam-drin neu ei niweidio mewn unrhyw ffordd.

Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn yr egwyddorion canlynol sy'n sail i'r Polisi:

- bod hawl gan bob plentyn ac oedolyn (beth bynnag fo'i gefndir, diwylliant, oed, anabledd, rhywedd, ethnigrwydd, credo crefyddol) i gymryd rhan mewn cymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, cam-drin, bwlio na gwahaniaethu
- bod hawl gan bob plentyn ac oedolyn i gael ei amddiffyn rhag niwed, camfanteisio a cham-drin
- rhoi lle canolog i les plant ac oedolion yn ein polisïau a'n gweithdrefnau
- cydweithio mewn partneriaeth agos â chymdeithasau, plant, eu rhieni, gofalwyr ac oedolion ac asiantaethau eraill i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion
- parchu hawliau, dymuniadau, teimladau a phreifatrwydd plant ac oedolion drwy wrando arnynt a lleihau unrhyw risgiau a all effeithio arnynt
- ymyrraeth gynnar a cheisio osgoi sefyllfa lle y bydd cam-drin neu honiadau am gam-drin neu niweidio yn gallu codi.

3. CYFRIFOLDEBAU A DYLETSWYDDAU

3.1 Mae cyfrifoldeb gan bob Cynghorydd, pob aelod o'r staff, pob gwirfoddolwr a phob darparwr gwasanaeth sydd wedi'i gontractio neu yn defnyddio adnoddau y Cyngor, i lynu wrth y gweithdrefnau a'r cyfarwyddyd sydd yn y polisi hwn.

3.2 Drwy ddilyn y cyfarwyddyd a'r gweithdrefnau cywir, gellir sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i ddelio ag unrhyw honiad neu bryder, bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sy'n diogelu plant ac oedolion a bod staff yn gallu ymddwyn yn ddiogel.

3.3 Mae cyfrifoldeb gan bob aelod o'r staff, pob Cynghorydd, pob gwirfoddolwr a phob darparwr gwasanaeth ym maes diogelu. Mae'n bwysig iawn tynnu sylw at hyn.

4. Y BROSES ATGYFEIRIO

4.1 Os bydd unrhyw aelod o'r Cyngor yn pryderu am ddiogelwch unigolyn neu am ymddygiad cydweithiwr tuag at blentyn neu oedolyn, yna dylai gysylltu ar unwaith gyda Clerc y Cyngor neu y Cadeirydd.

4.2 Os ceir pryderon am les neu ddiogelwch plentyn, yna dylid cysylltu a weithwyr cymdeithasol Cyngor sir Ynys Mon ar:

Ffôn: (01248) 725888 - Gwasanaeth oriau argyfwng (01248) 353551

4.3 Os oes pryder am oedolyn sydd mewn perygl, yna dylid cysylltu a Gwasanaeth Oedolion Cyngor Sir Ynys Mon ar:

Ffôn (01248) 752752 neu (01248) 750057 Gwasanaeth oriau argyfwng (01248) 353551

4.4 Rhaid cysylltu â'r Heddlu ar unwaith os yw'r plentyn neu oedolyn mewn perygl ar y pryd.

5. ADRODD, MONITRO AC ADOLYGU

5.1 Adolygir y Polisi Diogelu bob blwyddyn neu os ceir diwygiadau mewn deddfwriaeth neu wrth ystyried newidiadau mewn arferion gweithio a all godi o ganlyniad i ddigwyddiadau neu honiadau.

5.2 Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau am y polisi hwn, cysylltwch a Clerc y Cyngor Bro drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e bost: llanfairpwll@outlook.com

LLANFAIRPWLLGWYNGYLL

COMMUNITY COUNCIL

POLICY FOR THE PROTECTION OF YOUNG PEOPLE AND ADULTS

Version 1: 4th March 2020

1. INTRODUCTION

1.1 As a Community Council, we believe that every child and adult has a right to be safe from harm. The Council acknowledges its role and responsibilities to provide definite guidance for staff, Councillors, partners and those people whom we serve in this key field

1.2 "Safeguarding" is everybody's business in every service within the Council. Whilst Social Services is the lead service for dealing with enquiries regarding allegations / concerns that children and adults may be suffering significant harm, everyone has a responsibility to safeguard the welfare of children, young people and adults whatever the role of the individual

1.3 "Safeguarding" is a wider concept that the protection of children and adults and deals with the promoting of:

- Physical, emotional and mental health
- Protection from harm and neglect
- Education, training and leisure
- Contribution to society
- Social and economic well-being

2. PURPOSE OF THIS DOCUMENT

The purpose of this document is to introduce the Council's "Policy for Safeguarding Children and Adults".

2.1. Objectives and Principles of the Policy

2.1.1. Objectives

- to demonstrate how Llanfairpwllgwyngyll Community Council undertakes its commitments in the field of Safeguarding children and adults
- to give assurance to members of the public, service users, Councillors, employees and people working on behalf of the Council that there are arrangements in place to safeguard and protect children and adults
- that Council staff and Councillors have guidelines for when a child or adult may be at risk of harm

2.1.2. Principles

As a Council we believe that it is always unacceptable for a child or an adult to be abused or harmed in any way. This is reflected in the following principles which form the basis of the Policy:-

- every child and adult (whatever their background, culture, age, disability, gender, ethnicity, religious belief) has a right to participate in a safe society without any violence, fear, abuse, bullying and discrimination
- every child and adult has the right to be protected from harm, exploitation and abuse
- we as a Council will put the welfare of children and adults centrally in our policies and procedures
- as a Council we will work closely in partnership with children, their parents, carers and adults and other agencies to safeguard and promote the welfare of children and adults
- respect the rights, wishes, feelings and privacy of children and adults by listening to them and minimising any risks that may affect them
- early intervention and try to avoid situation where abuse or allegations of abuse or harm may occur

3. RESPONSIBILITIES AND DUTIES

3.1 Every Councillor, every member of staff, every volunteer and every contracted service provider or user of the Council facilities has a responsibility to adhere to the procedures and guidance set out in this policy

3.2 By following the correct procedures and guidance, it is possible to ensure that the appropriate steps are implemented to deal with any allegation or concern, services are planned and delivered in a way which safeguards children and adults and staff are able to conduct themselves safely

3.3 Every member of staff, Councillor, volunteer and service provider has a responsibility in the field of safeguarding. It is very important to highlight this.

4. THE REFERRAL PROCESS

4.1 Any member of staff with concerns regarding the safety of an individual or the behaviour of a colleague towards children or an adult should contact the Community Council Clerc or Chairman immediately.

4.2 If there are concerns about the welfare or safety of a child, please contact the Social Services at Anglesey County Council on:

Tel: (01248) 725888 - Emergency out of hours (01248) 353551

4.3 For any concerns about the welfare of adults, please contact the Anglesey county Council Adults at Risk team on:

Tel (01248) 752752 or (01248) 750057 – Emergency out of hours (01248) 353551

4.4 The Police must be contacted immediately if the child or adult is in immediate danger

5. REPORTING, MONITORING AND REVIEWING

5.1 This Safeguarding Policy will be reviewed annually or if any amendments occur in legislation or in consideration of changes in working practices which may stem from incidents or allegations

5.2 If you have any questions or wish to make comments about this policy, please contact the clerk of the Community Council using the following e mail address:

llanfairpwll@outlook.com